



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen Canfyddiadau Allweddol ynghylch Pontio ac Aseidiadau

Crynodeb o'r Ymchwil

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 74/2014

Mae'r Cyfnod Sylfaen (a gyflwynwyd yn 2008) yn cynnig cwricwlwm o ddysgu trwy brofiad, sy'n briodol yn ddatblygiadol, i blant 3 i 7 oed yng Nghymru. Nod y gwerthusiad annibynnol (dan arweiniad WISERD), a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yw gwerthuso pa mor dda y caiff ei roi ar waith, beth fu ei effaith, a ffyrdd o'i wella. Mae'r gwerthusiad tair blynedd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cymysg ar raddfa genedlaethol a lleol.

Dyma un o bedwar papur sy'n canolbwyntio ar **effaith**. Mae'n defnyddio 239 o arsylwadau ar ddsbarthiadau a lleoliadau, 341 o gyfweiliadau ag ymarferwyr, 604 o ymatebion gan ysgolion a lleoliadau i arolwg, 1,008 o ymatebion gan rieni/gofalwyr i arolwg, 37 cyfweiliad ag Awdurdodau Lleol a phedwar cyfweiliad â lleoliadau nas cynhelir.

## Canfyddiadau Allweddol

- Mae mwyafrif helaeth arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir, penaethiaid a rhieni/gofalwyr yn hapus gyda'r **trefniadau pontio i leoliadau ac ysgolion** (o'r cartref, lleoliad cyn-meithrin neu leoliad nas cynhelir).
- **Ni welwyd asesu nac arsylwi yn rheolaidd** yn yr ysgolion neu leoliadau nas cynhelir a ariennir a oedd yn astudiaethau achos, ac mae ymarferwyr yn aros i'r **asesiad newydd adeg mynediad** gael ei gyflwyno.
- Mae gan athrawon Blwyddyn 3 deimladau cymysg ynghylch **pontio o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2**, ac mae'r strategaethau pontio sydd wedi'u rhoi ar waith yn amrywio'n sylweddol.
- Gallai agweddau athrawon Blwyddyn 3 tuag at y Cyfnod Sylfaen, yr amser sy'n cael ei dreulio'n gweithio gyda'r Cyfnod Sylfaen, ethos yr ysgol gyfan a chyfleoedd hyfforddi **fod yn gyfrwng ar gyfer pontio llwyddiannus i Gyfnod Allweddol 2**.
- Mae mwyafrif yr athrawon yn fodlon ag **Aseidiadau Deilliannau Diwedd y Cyfnod Sylfaen**.
- Mae gan lawer o ymarferwyr a rhanddeiliaid allweddol bryderon ynghylch cyflwyniad y **profion darllen a rhifedd Blwyddyn 2** yn ddiweddar.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

## Canfyddiadau Allweddol Pellach

Mae rhai arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir o'r farn bod y gofyniad i **rannu data asesu gwaelodlin adeg mynediad** yn golygu bod mwy o botensial erbyn hyn am gyfathrebu ystyrion gydag ysgolion (er nad yw hyn yn cael ei wireddu bob amser).

Mae llawer o arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn pryderu bod y **gwaith papur** sydd ynghlwm wrth yr asesu gwaelodlin adeg mynediad yn cymryd gormod o amser a dylai codiad cyflog gydfynd ag ef.

Wrth aros am gyflwyno'r **asesiad gwaelodlin newydd adeg mynediad**, mae 11% o ymarferwyr yn parhau i ddefnyddio'r Proffil Asesu Datblygiad Plant<sup>1</sup> yn llawn, mae 36% yn defnyddio rhai elfennau ohono ac mae 36% yn defnyddio rhywbeth gwahanol (nid oedd 17% yn siŵr).

Mae llawer o ymarferwyr o'r farn y dylai'r asesiad gwaelodlin adeg

---

<sup>1</sup> Cafodd y Proffil Asesu Datblygiad Plant ei ddiddymu gan Lywodraeth Cymru yn Chwefror 2012.

mynediad newydd gysylltu'n benodol â **deilliannau**, ac mae rhai ymarferwyr o'r farn y dylid defnyddio un system i olrhain cynnydd parhaus o'r Cyfnod Sylfaen yr holl ffordd drwy'r ysgol gynradd (ac, efallai, yr ysgol uwchradd).

Mae llawer o ddulliau gwahanol yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i olrhain cynnydd disgyblion, a mynegodd ymarferwyr eu rhwystredigaeth am yr **ansicrwydd cyffredinol ynghylch asesu**.

Mae'r **gostyngiad dramatig yn y defnydd o ddulliau addysgu'r Cyfnod Sylfaen** ar draws y grwpiau blwyddyn yn anodd i lawer o blant<sup>2</sup>; ond mae profiad plant o hyn yn amrywio a datgelodd grwpiau ffocws Blwyddyn 2 fod rhai plant yn mwynhau '**heriau ychwanegol**' gwaith anoddach (ar yr amod bod y gweithgareddau o hyd yn amrywiol a diddorol).

Roedd 25% o'n sampl o athrawon Blwyddyn 3 o'r farn bod y Cyfnod

---

<sup>2</sup> Ysgogwyd hyn gan bryderon ynghylch yr 'agenda safonau'; hynny yw, y newid mewn addysgeg mewn ymateb i gyflwyno'r profion darllen a rhifedd. Cafwyd adroddiad ar hyn yn y crynodeb ymchwil ar Addysgeg a Dealltwriaeth.

Sylfaen yn **paratoi plant ar gyfer Cyfnod Allweddol 2** yn gadarnhaol, tra'r oedd 19% o'r farn ei fod yn cael effaith negyddol ac nid oedd y gweddill yn siŵr. At ei gilydd, roedd 62% o athrawon Blwyddyn 3 o'r farn bod y Cyfnod Sylfaen yn beth da.

Roedd 88% o'r rhieni/gofalwyr a holwyd yn yr arolwg o'r farn bod eu plentyn wedi **ymgartrefu'n** dda ym Mlwyddyn 3. Dywedodd 46% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd fod **mwynhad dysgu** eu plentyn wedi aros yn gyson yn ystod y pontio i Gyfnod Allweddol 2, tra'r oedd 36% o'r farn bod eu mwynhad wedi cynyddu ac roedd 15% o'r farn ei fod wedi gostwng (nid oedd 3% yn siŵr).

Mae rhai ymarferwyr a phenaethiaid yn ceisio ymestyn **dulliau addysgu'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2** yn fwriadol mewn ymgais i sicrhau bod plant yn parhau i fwynhau dysgu.

Mae gan 18% o athrawon bryderon ynghylch sut i gyfleu canlyniadau **Asesiadau Deiliannau Diwedd y Cyfnod Sylfaen** i rieni/gofalwyr, ac roedd sawl un wedi amlygu

trafferthion yn mapio deilliannau'r Cyfnod Sylfaen i 'lefelau' Cyfnod Allweddol 2.

Nododd rhai arweinwyr y Cyfnod Sylfaen fod maes dysgu 'Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol' yn arbennig o **anodd i'w fesur** ac, felly, i'w asesu.

Gwelwyd **ymarferwyr ychwanegol** yn arsylwi, asesu ac olrhain cynnydd plant yn amlach nag athrawon.

Mae **asesu ac arsylwi** yn fwy tebygol o ddigwydd yn ystod darpariaeth barhaus neu estynedig (ac, yn bennaf, yn ystod meysydd dysgu 'Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' a 'Datblygiad Mathemategol').

Mae llawer o ymarferwyr a rhanddeiliaid allweddol o'r farn bod **fformat** y profion darllen a rhifedd yn gwrth-ddweud egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.

Dywedodd 85% o'r rhieni/gofalwyr a gafodd eu cynnwys yn yr arolwg, ac sydd â phlentyn ym Mlwyddyn 2,

eu bod yn hapus bod y profion  
**darllen a rhifedd** wedi'u cynnal.

Awduron: Samuel Waldron, Mirain  
Rhys, Chris Taylor (Prifysgol  
Caerdydd)

ISBN: 978-1-4734-1852-3

17 Gorffennaf 2014